

## OWEN, GEORGE (c. 1552 - 1613), hanesydd, hynafiaethydd, ac achydd

**Enw:** George Owen

**Dyddiad geni:** c. 1552

**Dyddiad marw:** 1613

**Priod:** Ancred Owen (née Obiled)

**Priod:** Elisabeth Owen (née Philipps)

**Plentyn:** Ursula Mathias (née Owen)

**Plentyn:** Alban Owen

**Plentyn:** Evan Owen

**Plentyn:** George Owen

**Rhiant:** Elisabeth Owen (née Herbert)

**Rhiant:** William Owen

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** hanesydd, hynafiaethydd, ac achydd

**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** Bertie George Charles

Ganwyd yn Henllys, plwyf Nanhyfer, yng ngogledd Sir Benfro, c. 1552, mab hynaf [William Owen](#) (c. 1486 - 1574), cyfreithiwr llwyddiannus a brynodd farwniaeth Cemais yn 1543 gan John Tuchet, arglwydd Audley, gan ddyfod yn arglwydd y farwniaeth. Ei fam oedd Elisabeth, merch [Syr George Herbert](#), Abertawe, brawd [William, Iarll 1af Penfro](#) o linach yr [Herbertiaid \(yr ail gread\)](#). Gorffennodd ei addysg ffurfiol yn Bernard's Inn, lle derbyniwyd ef yn 1573, ond yn fuan wedyn ymsefydlodd yn hen gartref ei deulu yn Henllys, a dyfod yn un o'r ysgweriaid mwyaf dylanwadol yng ngogledd Sir Benfro. Priododd (1), Elisabeth, merch a chydaeres [William Philipps](#), Pictwn, yn 1571, a bu iddynt 11 o blant. Eu mab hynaf oedd Alban Owen (bu farw 1658), olynnydd ei dad fel arglwydd Cemais, a siryf Sir Benfro yn 1620 a 1643; (2), Ancred, merch William Obiled, Caerfyrddin, mam saith o'i blant ordderch a phump o'i blant cyfreithlon. Daeth dau o'u plant ordderch yn bur enwog - George Owen, 'York Herald' (gweler y *D.N.B.* arno ef; nid oes a wnelo ei yrfa â Chymru), ac Evan Owen (1599 - 1662), canghellor Tyddewi (1644-62).

Aflonyddwyd llawer ar fywyd George Owen gan yr ymgyfreithio a fu rhyngddo ef a'i elynion, yn enwedig [Syr John Perrot](#) a William Warren, Trewern. Gorfuo iddo ef a'i fam hefyd ymladd yn y llysoedd dros eu hawliau maenoraidd yn arglwyddiaeth Cemais. Cymerai ran amlwg mewn bywyd cyhoeddus, a bu'n siryf Sir Benfro yn 1587 a 1602. Fel dirprwy is-lyngesydd Penfro a Cheredigion, dirprwy-raglaw Penfro, ac ustus heddwch am nifer o flynyddoedd, bu'n weithgar ynglŷn â'r milisia a cheisiodd berswadio'r awdurdodau i amddiffyn Aberdaugleddau, oherwydd y perygl parhaus oddi wrth yr Ysbaenwyr. Penodwyd ef gan y Goron yn un o'r dirprwywyr a fu'n arolygu eiddo [Syr John Perrot](#) adeg ei ddifreinio yn 1592. Bu farw 26 Awst 1613 a chladdwyd ef yn Nanhyfer.

Dylanwadwyd yn drwm ar George Owen gan y diddordeb newydd mewn hanes a hynafiaethau a nodweddiadau oes Elisabeth yng Nghymru yn ogystal â Lloegr. Yr oedd yn hyddysg yng ngweithiau [Humphrey Llwyd](#), [David Powel](#), a [Syr John Price](#) a'u cyfoeswyr yn Lloegr, ac yr oedd hefyd ar delerau cyfeillgar â [Lewys Dwnn](#), [Thomas Jones](#) ('Twm Sion Cati'), a William Camden, a hynafiaethwyr ac achyddion eraill y cyfnod; rhoes gymorth i William Camden. Ef oedd canolbwyt cyrch bychan o sgrifenyddwyr yn Sir Benfro, yn cynnwys [George Owen Harry](#), [Robert Holland](#), a [George William Griffith](#), a chafodd nifer o feirdd Cymreig yr oes nawdd a chroeso ganddo yn Henllys. Ei brif waith yw ' *The Description of Penbrockshire*, ' a ymddengys fel pe bai'n seiliedig o ran ffurf ar *Survey of Cornwall* Richard Carew, 1602. Gorffennwyd y ' *Llyfr Cyntaf*, ' hanes cyffredinol y sir, 18 Mai 1603; darn yn unig o'r ' *Ail Lyfr* ' (a gyhoeddwyd yn *Cylchgrawn Ll.G.C.*, v), sef hanes manwl y sir fesul plwyf, sydd ar gael, ac y mae'n amheus os gorffennodd Owen ei gynllun uchelgeisiol. Yr oedd eisoes wedi ysgrifennu ' *A Dialogue of the present Government of Wales* ' yn 1594. Gweithiau eraill o'i eiddo yw ' *A Treatise of Lordships Marchers in Wales*, ' ' *The Number of the Hundreds Castells, Parish Churches and ffayres ... in all the Shiers of Wales*, ' 1602, a elwir fel rheol ' *The Description of Wales*, ' darn a elwir ' *A Catalogue and Genelogie of the Lordes of the Baronye of Kemes, Lordes of Kemes*, ' ' Proofes ... that the Lordship of Kemes is a Lordshippe Marcher ' (yn ' *Baronia de Kemeys* ' yn *Archæologia Cambrensis*, supplement, 1862), ' *Pembrock and Kemes* ' (a gyhoeddwyd yn rhannol), a nifer o draethodau byrion ar arglwyddiaeth Cemais, 'A Pamphlett containinge the description of Milford havon,' ... 1595, a darnau eraill ar yr un pwnc. Y mae copi o'r ' *Treatise of Marle*, ' 1599, yn y ' *Vairdre Book* ' ymhlith llawysgrifau Bronwydd yn y Llyfrgell Genedlaethol. Casglodd hefyd goflyfr yn dwyn y teitl ' *The Taylors Cussion* ' (gol. E. M. Prichard, 1906). Dan ei gyfarwyddyd ef y gwnaed y ' *Vairdre Book*, ' sef casgliad cymysg o'i nodiadau hynafiaethol a chofnodion hanesyddol Cemais, a hefyd y ' *Register Book of Kemes* ' (a gyhoeddwyd yn *Archæologia Cambrensis*, supplement, 1862). Yr oedd Owen yn achydd a herald medrus a diwyd. Dengys ei

weithiau ar achyddiaeth, sydd gan mwyaf heb eu cyhoeddi, olion dylanwad y Coleg Arfau (*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1948, 378-82). Lluniodd hefyd fap o sir Benfro, 1602, a gyhoeddwyd gan Camden yn y 6ed argraffiad o'r *Britannia*, 1607.

## Awdur

Dr Bertie George Charles, (1908 - 2000)

## Ffynonellau

Henry Owen, *A calendar of the public records relating to Pembrokeshire* (1911-18) (gol. Henry Owen yn *Cymmrodorion Record Series*, i), lle y cyhoeddir y cwbl o weithiau George Owen a enwir uchod oni nodir i'r gwrthwyneb

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, i, 226-7; ii, 43-5; v, 265-85

*Cartae Baroniae de Kemes* (Middle Hill Press 1841)

*Archaeologia Cambrensis*, 1862, 14-8, 226-7; 1867, 132-5

*Llawysgrifau Bronwydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [George Owen](#)

## Gweithiau

Thomas Phillipps, George Owen, *[Pedigree of Wogan of Bouleston, Co. Pembroke \(from George Owen's MSS, at Middle Hill, No. 12380, in 1860\)](#)* (Middle Hill Press c.1867)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [9948768](#)

Wikidata: [Q5543081](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

